



Pwy ydym ni

Rydym yn wasanaeth tai-â-chymorth arbenigol yn y Tymbl, Sir Gaerfyrddin. Gallwn roi cymorth i dri dyn neu fenyw 18 oed a throsodd sy'n fyddar, yn fyddar a dall neu'n drwm eu clyw a chanddynt anghenion cymhleth ychwanegol fel anabledau dysgu neu anabledau corfforol a salwch meddwl. Mae ein cymorth sy'n ymwneud â thair, a'n gofal yn y cartref yn rhoi'r cyfle i bobl fyw'n annibynnol, mewn amgylchedd diogel ac ymlaciol, gyda staff ar y safle 24 awr y dydd. Rydym yn defnyddio ystod o dechnegau cyfathrebu, dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a phroses gadarnhaol o gymryd risgiau ym mhob agwedd ar ein dull cynllunio ac adolygu gofal. Rydym hefyd yn ceisio deall yr hyn y mae pobl yn ceisio ei gyfleu drwy eu hymddygiad ac yn dod o hyd i ffyrdd o helpu pobl i fynegi eu hunain yn adeiladol.

Sut y gallwn eich cynorthwyo

Gallwn roi lle diogel a chyfforddus i chi fyw ynddo. Byngalo â mynediad llawn i gadeiriau olwyn yw Heol Derwen, sydd â thair ystafell wely en-suite, gydag offer arbenigol wedi'i osod er mwyn ichi allu eu defnyddio'n ddiogel ac yn annibynnol. Mae gennym lolfa fawr agored hefyd sydd â theledu a DVD lle y gallwch ymlacio a threulio amser gyda phobl eraill, a chegin ac man cinio helaeth. Mae

ystafell olchi a gardd hefyd. Os ydych yn cael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu'n gymwys ar gyfer y Cynllun Motability, gallwn eich helpu i brynu eich cerbyd eich hun. Os nad ydych yn gallu gyrru, mae ein staff wedi'u hyswiro i yrru eich car Motability ar eich rhan er mwyn ichi allu mynd o le i le.

Byddwn yn eich galluogi i gyflawni gorchwylion o ddydd i ddydd mor annibynnol â phosibl, gyda chymorth lle a phryd y bydd arnoch ei angen. Mae ein staff yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a byddant yn eich annog, yn eich cymell ac yn eich helpu ym mhob agwedd o fywyd bob dydd - o wneud dewisiadau byw'n iach, i ddelio a materion tai, cyllidebu, mynd i'r coleg neu'ch helpu i ganfod a gwneud cais am gyfle i wirfoddoli neu i gael swydd.

Rydym hefyd wedi'n cofrestru i ddarparu gofal yn y cartref, ac felly os bydd arnoch angen cymorth gyda gofal personol, gallwn eich helpu gyda hynny hefyd. Mae ein staff cyfeillgar wedi'u lleoli ar y safle a byddant yn siarad â chi bob dydd am yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud a sut yr hoffech inni eich helpu.

Byddwn hefyd yn cyfathrebu â chi yn y ffordd a ddymunwch ac yn eich cynorthwyo i greu'ch cynllun cymorth penodedig eich hun. Bydd hwn yn disgrifio'r hyn sy'n bwysig i chi, sut yr hoffech fyw eich bywyd, a pha gymorth fydd arnoch ei angen i sicrhau hyn.

Yr hyn sy'n bwysig i ni

- Darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae'r bobl rydym yn eu cefnogi ei eisiau a'r hyn y maen nhw'n ei hoffi
- Hybu annibyniaeth yn y cartref ac yn y gymuned
- Gweithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion y bobl rydym yn eu cynorthwyo
- Sicrhau bod y bobl rydym yn eu cynorthwyo yn hapus, yn ddiogel ac yn iach
- Cyfathrebu yn y ffordd sydd orau gan yr unigolyn, er enghraifft, Iaith Arwyddion Prydain neu luniau
- Gweithio fel tîm ac mewn partneriaeth â phobl rydym yn eu cynorthwyo, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill
- Gwella a datblygu'r hyn a wnawn yn barhaus er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl

Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud amdanom

“Mae gennyf fy ystafell fy hun sy'n cynnwys ystafell ymolchi, ac man byw gyffredin. Rwy'n byw gyda dau berson arall sy'n fyddar. Rydym yn cyd-dynnu'n dda iawn, nhw yw fy ffrindiau. Mae'r staff yn neis iawn hefyd. Ers byw yn Heol Derwen rwyf wedi gwneud llawer o bethau. Rwyf wedi mynd yn ôl i Abertawe a chlybiau eraill i bobl fyddar ac wedi cyfarfod â hen ffrindiau a gwneud rhai newydd. Cynlluniais drip mawr i Seland Newydd gyda chymorth y staff a bu'n rhaid i mi gynilo llawer o arian i wneud hynny. Rwy'n mwynhau byw yn fy nhŷ.”

- **person rydym yn ei gynorthwyo**



Action on Hearing Loss yw enw masnachu'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207720) a'r Alban (SC038926). A1216/0319

“Fy enw i yw Samuel Harbut. Rwyf wedi bod yn byw yma ers dros ddeng mlynedd. Fe gefais drawsblaniad aren chwe blynedd yn ôl ac mae gen i yn awr fywyd bendigedig. Rwyf yn berchennog ar gar KITT rwyf yn ei adeiladu. Rwyf yn gefnogwr brwd i Knight Rider ac yn casglu pethau cofiadwy, rwyf hyd yn oed wedi cyfarfod â'm harwr teledu, David Hasselhoff, ddwywaith - yn 2012 ac yn 2017. Pan welais ef yr ail waith, fe ddywedais, “Helô, a ydych yn fy nghofio i?” Dywedodd David, “Aros funud... fe roddaf grys-T am ddim iti”, ac fe wnaeth o ei lofnodi - roeddwn wedi fy syfrdanu! Mae fy mreuddwyd hyd oes o fod yn berchennog ar fy nghar KITT fy hun a chyfarfod â David Hasselhoff wedi'i wireddu o'r diwedd!”

- **Person rydym yn ei gynorthwyo**

Ble rydym ni

Mae Heol Derwen yn y Tymbl, pentref bach ger Cross Hands yn Ne-orllewin Cymru. Mae ymdeimlad gwirioneddol o gymuned yn y Tymbl, sy'n ardal wledig ond yn agos at ganol trefi bywiog fel Llanelli, Abertawe a Chaerfyrddin, gyda chyfleoedd siopa a hamdden gwyd ynghyd â chymuned sy'n ffynnu i bobl fyddar.

Cysylltu â ni

Cysylltwch â'n Cydgysylltydd Atgyfeiriadau os hoffech wneud y canlynol:

- cael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth
- atgyfeirio
- trefnu ymweliad
- cael sgwrs am sut y gallwn roi cymorth i chi!

  **0333 240 5659**

 referrals@hearingloss.org.uk

 actiononhearingloss.org.uk/careandsupport

Address: 1 Rhydyrcerrig, Derwen Road, Tumble, Llanelli SA14 6HP